

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn
Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Fawrth, 7 Mai 2019 am 8:15p.m.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, Gavin Harris, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

81. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorydd John Wynne Hughes.

82. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

83. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2019 yn gywir.

84. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

85. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:
02/2019/0238 – 5 Llys y Castell, Rhuthun – Adeiladu estyniadau i'r annedd yn cynnwys rampiau mynediad - Caniatawyd

86. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn, yn ddarostyngedig i'r sylwadau isod.*

02/2019/0193 – Bryn Ffynnon, Llanfwrog, Rhuthun

Addasiadau ac estyniadau i'r annedd a chodi garej newydd

02/2019/0325 – Stretton, Ffordd Llanfair, Rhuthun

Addasiadau ac estyniad i'r annedd presennol

02/2019/0307 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun

Amrywio amod 2 caniatâd cynllunio 02/2015/0313/PF i ganiatáu estyniad i'r cyfnod amser ar gyfer lleoli ystafell ddosbarth dros dro am ddwy flynedd arall

02/2019/0355 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgru, Rhuthun

Gosod 5 ystafell ddosbarth cludadwy fel un bloc, i'w defnyddio fel ystafelloedd dosbarth dros dro.

87. CYHOEDDUSRWYDD AC YMGYNGHORI CYN CYFLWYNO CAIS

Hysbyswyd yr aelodau bod Aldi Stores Ltd yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd cynllunio hybrid i 1) adeiladu siop fwyd (dosbarth defnydd A1), uned gyflogaethau (dosbarthiadau defnydd B1/B2/B8) a maes parcio cysylltiedig, tirlunio, gwasanaethau a mynediad; a 2) caniatâd amlinellol i ddatblygu unedau cyflogaeth (dosbarth B1/B2/B8) gyda'r holl faterion wedi'u neilltuo. Dywedodd aelod bod y safle arfaethedig wedi'i ddynodi fel tir cyflogaeth yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych, yn hytrach nag adwerthu. Dywedodd aelod bod y cynlluniau'n cynnwys unedau cyflogaeth ac y byddai'r archfarchnad hefyd yn darparu cyflogaeth. Awgrymwyd creu arosfan bws y naill ochr i'r ffordd fel y gallai pobl ddefnyddio cludiant cyhoeddus i fynd i ac o'r archfarchnad arfaethedig.

PENDERFYNWYD: *nodi dyddiad y digwyddiad ymgynghori yn Y Ganolfan, Llanfwrog, a thrafod y cais cynllunio arfaethedig yn y Cyngor llawn.*

88. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 10 Mehefin 2019 am 8:00pm.*